# Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol: Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

## 1. Amcanion y polisi

Y penderfyniad sy'n cael ei asesu yw effaith gweithredu Hawl Genedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol o fis Medi 2022 ymlaen i **gefnogi'r broses o gyflawni'r diwygiadau addysg, yn enwedig ar gyfer y Cwricwlwm newydd, y Diwygiadau ADY a thegwch mewn addysg.**

Bydd y cwricwlwm newydd yn dechrau cael ei gyflwyno ym mis Medi 2022, a bydd yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cael ei lansio ar 30 Medi. Mae'r cynnig hwn yn un o sawl ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio helpu ymarferwyr i ymgymryd â dysgu proffesiynol a datblygu eu sgiliau, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

## 2. Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl Ifanc

Bwriad y cynnig yw cael effaith gadarnhaol ar fywyd plant; gan sicrhau bod eu hathrawon a'r rheini sy'n arwain eu hysgolion yn barod ac yn hyderus i gyflawni **diwygiadau addysg, yn enwedig ar gyfer y Cwricwlwm newydd, y Diwygiadau ADY a thegwch mewn addysg.**

Ni chafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith datblygu ar y cyd i lunio'r Hawl, ond byddant yn fuddiolwyr uniongyrchol gan y bydd yr Hawl yn arwain at weithlu mwy medrus i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

Mae gwaith yn cael ei wneud i gynnwys plant a phobl ifanc mewn llawer o'r adnoddau newydd ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'r Hawl – yn arbennig, darpariaeth newydd sy'n gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn/Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Bydd manteision cynnar yr Hawl newydd i ymarferwyr a dysgwyr fel ei gilydd yn cael eu hystyried ymhellach drwy astudiaethau achos, a fydd yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ymarferwyr ar draws y llwybr gyrfa yn ystod camau cychwynnol y broses weithredu, a thrwy werthusiad ehangach o'r ddarpariaeth HMS yn 23/24.

Roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail i'r Hawl Dysgu Proffesiynol yn amrywio o adolygiadau wedi'u comisiynu o agweddau ar y system – fel proses sefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso – i werthusiadau o gynlluniau penodol ac adolygiadau annibynnol o wahanol agweddau ar ein system, gan gynnwys astudiaeth ddiagnostig ar y system Dysgu Proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru, a gafodd ei chynnal gan OECD a'i chyhoeddi yn 2021.

Drwy gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus, bydd y canlyniadau a fwriedir yn gwella addysg plant a phobl ifanc, a'r adenillion o'r buddsoddiad fydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn yr hirdymor.

## 3. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith

| Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn neu Brotocol Dewisol | Gwelliannau (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 28** Mae gan blant yr hawl i addysg... | X | | Mae’r Hawl newydd yn amlinellu camau gweithredu i wella'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg. Bydd hynny, yn ei dro, yn eu galluogi i gyflwyno ein cwricwlwm i Gymru sy’n arwain y byd ac i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol eraill, er mwyn galluogi pob dysgwr i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd. |
| **Erthygl 29** Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn i’r eithaf... | X | | Mae’r Hawl newydd wedi cael ei datblygu i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth dysgu proffesiynol o safon, i’w galluogi i sicrhau **safonau uchel i bawb a meithrin dyheadau uchelgeisiol.** Bydd yr Hawl yn help i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, gan gynnwys helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymwreiddio tegwch, llesiant a’r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol.<br><br>Mae’r Hawl yn cyd-fynd yn agos â’r gwerthoedd a’r ymagweddau a adlewyrchir yn y safonau proffesiynol, sy’n mynnu y bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth wrth i’r ymarferydd fynd ati i gyflawni ei swydd, y bydd gan yr ymarferydd ddisgwyliadau uchel, ac y bydd yn ymrwymedig i gyflawniad pob dysgwr. |

## 4. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad

Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau'n cael ei gynnwys mewn cyngor yn y dyfodol i'r Gweinidog, sef y dylai'r broses o weithredu'r Hawl gael effaith gadarnhaol ar addysg plant a phobl ifanc. Mae'r weledigaeth hon hefyd yn cael ei hegluro'n glir yn y canllawiau newydd ynglŷn â'r Hawl, a gyhoeddwyd ar Hwb. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu cyfrifoldebau'r consortia addysg, awdurdodau lleol a chyrff esgobaethol i fonitro cynnydd ysgolion neu leoliadau o ran gweithredu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol fel rhan o'u cynllun i ddatblygu'r ysgol. Bydd tystiolaeth gychwynnol ar gael drwy astudiaethau achos sy'n cadw golwg ar y broses o weithredu'r Hawl ar lefel ymarferwyr, ac yn dilyn adolygiad ehangach o ddefnydd ac effeithiolrwydd HMS y bwriedir ei gynnal yn 2023/24.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Nid ydym wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar hyn o bryd, gan fod yr Hawl yn ymwneud yn y lle cyntaf â gweithwyr addysg proffesiynol. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd i weithio gyda dysgwyr i gasglu eu barn am fanteision uniongyrchol i'w haddysg yn cael eu hystyried wrth i ni symud ymlaen i weithredu'n ehangach.

## 6. Monitro ac Adolygu

Yn ystod cyfnod gweithredu'r Hawl newydd, bydd deunyddiau enghreifftiol yn cael eu datblygu a'u darparu ar Hwb i roi cymorth pellach i ymarferwyr wrth iddynt ddechrau rhoi'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar waith yn eu lleoliadau eu hunain. Mae rhai o'r elfennau allweddol sydd ar y gweill i gefnogi'r cyfnod gweithredu wedi'u nodi isod.

- Ystyrir gweithio gydag amrywiaeth o ysgolion i gadw golwg ar eu cynnydd o ran gweithredu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Os bydd yr ysgolion yn cytuno, bydd eu taith dysgu proffesiynol yn cael ei chofnodi fel cyfres o astudiaethau achos ar ffurf fideo.

- Bydd y gwaith yn parhau gyda'r partneriaethau/consortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn hwylus, yn gydlynol ac yn hawdd ei defnyddio.

- Byddwn yn parhau i wella ardal yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar Hwb, a byddwn yn ystyried datblygu dogfen Cwestiynau Cyffredin i gyd-fynd â'r Hawl.

- Byddwn yn diweddaru fersiwn HTML y canllawiau i adlewyrchu'r datblygiadau polisi diweddaraf, ac yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

- Byddwn yn cynnal digwyddiad Mewnwelediad Polisi arall yn nhymor yr hydref, i ddangos sut mae ysgolion yn ymwneud â'r Hawl a rhannu arferion arloesol.

- Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr polisi i gysoni datblygiadau polisi priodol ar gyfer dysgu proffesiynol â'r Hawl newydd – hynny yw, asesu ar gyfer y dyfodol, Camau i'r dyfodol a rhwydweithiau cenedlaethol.

- Byddwn yn casglu tystiolaeth ar weithredu'r Hawl newydd yn ehangach, drwy adolygiad ehangach yn 23/24 ar ddefnyddio HMS yn effeithiol.

- Bydd yr Adolygiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu'n flynyddol yn unol â'r trefniadau a roddwyd ar waith i fonitro'r broses o weithredu'r Hawl.